# Cronfa Ddewisol Cynllun Cymorth Costau Byw (COLSS) Cyngor Gwynedd

Fel rhan o Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar 15 Chwefror 2022, cyhoeddwyd y byddai cynllun yn cael ei sefydlu i gynorthwyo aelwydydd gyda chostau byw drwy roi taliad o £150 i aelwydydd penodol. Er mai cynllun y Llywodraeth oedd hwn, roedd disgwyl i awdurdodau lleol ei weinyddu gan fod cymhwystra yn seiliedig ar statws Treth Cyngor yr eiddo.

Er mwyn bod yn gymwys am daliad dan y cynllun roedd rhaid i aelwyd fodloni un o'r amodau canlynol, fel a osodwyd gan Lywodraeth Cymru:

**Amod Hawlio Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**. Os oedd trigolyn yn cael cymorth drwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar 15 Chwefror 2022, asesir bod ganddynt hawl i gael taliad o £150 yn awtomatig waeth beth fo'r band prisio y mae eu heiddo ynddo.

**Amod Bandiau'r Dreth Gyngor**. Asesir bod gan aelwydydd sy'n meddiannu eiddo ym mandiau A i D y dreth gyngor hawl i gael taliad o £150 ar yr amod eu bod yn bodloni pob un o'r meini prawf canlynol:

- yn atebol i dalu'r dreth gyngor ar eiddo ar 15 Chwefror 2022
- ddim wedi cael eithriad ar gyfer yr eiddo hwnnw ar 15 Chwefror 2022
- yn byw yn yr eiddo hwnnw fel eu prif breswylfa ar 15 Chwefror 2022
- yn gyfrifol am dalu'r biliau cyfleustodau cysylltiedig a biliau eraill yr eir iddynt yn rheolaidd ar gyfer yr eiddo hwnnw ar 15 Chwefror 2022.

## Cynllun Dewisol

Yn ogystal â chefnogi'r categorïau cymwys a amlinellwyd uchod drwy'r prif gynllun, caiff pob awdurdod lleol ddefnyddio'r cyllid a ddarperir o dan y Cynllun Disgresiynol i gefnogi aelwydydd y mae angen cymorth arnynt gyda'u costau byw, ym marn yr awdurdod lleol. Gall y cymorth hwn fod ar ffurf taliad i aelwyd nad yw wedi'i chwmpasu eisoes gan y prif gynllun, neu gall dalu costau gwasanaethau hanfodol a ddarperir i'r aelwyd, er enghraifft ymestyn darpariaeth prydau ysgol am ddim neu brydau bwyd ar glud.

Bydd pob awdurdod lleol yn penderfynu sut y bydd yn defnyddio'r cyllid sydd ar gael.

**Mae Cynllun Dewisol Cymorth Costau Byw Cyngor Gwynedd yn dilyn ar y tudalennau nesaf, ac wedi ei rannu i ddwy elfen:**

- **Taliadau o £150 yn seiliedig ar Dreth Cyngor.**
- **Ariannu Rhwydwaith Hybiau Cefnogi Pobl a Banciau Bwyd**

**TALIADAU O £150 YN SEILIEDIG AR DRETH CYNGOR.**

**Dyddiad perthnasol 15/02/2022**

Bydd cymhwystra ar gyfer taliadau fel a ganlyn:

Taliad o £150 i'w wneud yn seiliedig ar ddata Treth Cyngor i breswylwyr yn yr eiddo canlynol. Yn y rhan fwyaf o gategorïau byddai'r trethdalwr wedi bod yn deilwng i dderbyn £150 dan y prif gynllun os na fyddai'r cyfrif Treth Cyngor wedi ei eithrio oherwydd amgylchiadau personol yr unigolyn:

Eithriad Dosbarth N– Eiddo wedi feddiannu'n llwyr gan fyfyrwyr llawn amser

Eithriad Dosbarth S – Eiddo wedi feddiannu gan bobol dan 18

Eithriad Dosbarth U – Eiddo wedi feddiannu gan breswylwyr sydd wedi eu adnabod fel bod â "Nam Meddyliol Difrifol"*

Eithriad Dosbarth W – Anecs wedi feddiannu gan berthnasau dibynnol dan amodau

Eithriad Dosbarth X – Unigolion dan 25 sydd mewn ôl ofal

Eiddo Band F-I sydd yn deilwng i ostyngiad band oherwydd anabledd

Eiddo Band E-I ble mae disgownt oherwydd "Nam Meddyliol Difrifol"*

Eiddo Band E-I ble mae disgownt oherwydd cyfrifoldeb gofal

Eiddo Band E-I ble mae nad yw'r ail berson ac cael eu hystyried at bwrpasu treth gan eu bod yn 18-19 mlwydd oed mewn Addysg Bellach

Eiddo Band E-I sydd yn deilwng i Ddisgownt Preswylydd Sengl

**Mae'r eithriadau a lleihad restrir yma yn ymwneud â bregusrwydd unigolyn / teulu, neu sefyllfa ariannol lle fod incwm y trethdalwr yn gyfyngedig.**

* fel diffinnir gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992

Ble fod manylion banc cyfredol, byw ar y cyfrif Treth Cyngor ar gael fe wneir taliad banc yn uniongyrchol i'r cyfrif yma.

Os na oes manylion banc, byw, yna fe yrri'r llythyr yn cynnig i'r sawl sydd yn deilwng gasglu'r taliad o'r Swyddfa Bost (am gyfnod o 28 niwrnod)

Os na fydd unigolyn teilwng yn hawlio'r arian fe yrri'r ail lythyr yn holi os yw'r person am dderbyn ail lythyr Swyddfa Bost neu i ddarparu manylion banc.

Os na fydd ymateb yna fe allwn roddi'r yr arian yn erbyn y cyfrif Treth Cyngor, ble gall yr unigolyn hawlio'r £150 fel ad-daliad (hyd at 31 Mawrth 2023).

Bydd unrhyw gyllid sydd yn weddill o'r gwariant uchod na ellir ei osod yn erbyn cyfrif Treth Cyngor yn cael ei rannu rhwng yr Hybiau Banciau Bwyd mewn ail daliad.

## RHWYDWAITH HYBIAU CEFNOGI POBL A BANCIAU BWYD

Nodir isod yr hyn fydd yn cael ei wneud gyda £300k o'r elfen Hybiau Cefnogi Pobl a Banciau Bwyd o'r Gronfa Ddewisol Costau Byw yn unol â'r diffiniad o "Ddefnydd ehangach o gyllid disgresiynol" yn y canllawiau.

Bydd y gweithgareddau isod i gyd wedi eu cyflawni cyn diwedd Mawrth 2023.

**1. Cyfraniad tuag at wella capasiti cefnogaeth a chymorth a cefnogi mynediad i gefnogaeth a chymorth.**

Mae gennym 11 hwb cefnogi pobl mewn cymunedau ar hyn o bryd mewn partneriaeth gyda Grwpiau Cymunedol a Mudiadau Trydydd Sector. Mae'r Hybiau yn dod a partneriaid a rhai o wasanaethau cymorth y Cyngor at ei gilydd i un lle ar gyfer gallu rhoi help i bobl gyda'r pethau canlynol :

- Cyngor ariannol a dyled (CAB, Cymdeithasu Tai, Uned Budd-daliadau'r Cyngor)
- Cyngor ar danwydd a chostau'r cartref (Warm Wales, Adran Tai, Groundworks, Cymdeithasau Tai)
- Mynediad i dalebau bwyd a pecynnau bwyd argyfwng (Pantrïoedd Cymunedol, Oergell Cymunedol, Clybiau Bwyd)
- Mynediad i dalebau ynni argyfwng
- Mynediad i ddillad
- Mynediad i nwyddau cartref a hylendid argyfwng
- Cynlluniau cyfeillio, cadw mewn cyswllt a cysylltu pobl gyda'i gilydd i drigolion bregus.
- Mynediad i gludiant gymunedol ar gyfer apwyntiadau, cyrraedd gwasanaethau hanfodol megis meddyg ac ysbyty, siopa a gwasanaethau statudol mewn trefi.
- Cefnogaeth i rai sydd fwyaf mewn peryg o dlodi ee gofalwyr di-dal, pobl gydag anableddau.
- Cefnogaeth iechyd meddwl i ddelio gyda straen, gôr bryder, iselder yn bennaf (gwasanaethau Cymdeithasol, Canolfannau I-can, canolfannau Iechyd Meddwl, Clystyrau Meddygon Teulu)
- Cefnogaeth ymarferol ar lawr gwlad i helpu pobl ymgeisio am wasanaeth, cynlluniau, grantiau ar eu rhan (gweithwyr lles) o amrywiol asiantaethau yn staffio'r hybiau.

Mae'r hybiau yn cefnogi pobl mewn dalgylchoedd penodol; ac yn agored i unrhyw berson.
Lleolir yr hybiau presennol yn –

Caernarfon
Maesgeirchen
Penygroes
Pwllheli ( a Nefyn)
Llanaelhaearn ( Trefor a Llithfaen)
Botwnnog
Blaenau Ffestiniog (Penrhyndeudraeth a Trawsfynydd)
Bala
Bethesda
Abermaw
Tywyn

Bydd y cyfraniad yn mynd tuag at sefydlu lloerenni lleol i'r hybiau uchod, ymestyn oriau, ymestyn capasiti staffio, ymestyn y ddarpariaeth o dalebau argyfwng (bwyd, tanwydd neu nwyddau i ddisgresiwn yr hwb); darpariaeth cyngor ariannol a darpariaeth bwydo.

**2. Cynllun "Croeso Cynnes"**

Mae'r cynllun yn ymgais i ddarparu gofod cynnes a saff i drigolion dros fisoedd y gaeaf. Mae'r gofod yn fwriadol ar gyfer bod yn rhywle i bobl fynd iddo i gadw yn gynnes oherwydd risgiau methu a cynhesu'r cartref.

Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd, Gwasanaeth Ieuenctid a'r Cymdeithasau Tai wedi arwyddo i'r cynllun. Bydd cyfraniad o'r gronfa yn mynd tuag at ddarparu'r gofod, panad a hyrwyddo'r lleoliadau i drigolion.

Byddwn yn targedu 3 grŵp yn benodol – poblogaeth gyfan (llyfrgelloedd); pobl dros 55 (gofod cymunedol llety a chefnogaeth); pobl ifanc 16-25 (gwasanaeth ieuenctid).

**3. Cynlluniau Bwyd a Bwydo**

Byddwn yn rhoi cyfraniad ariannol i'r 5 Banc Bwyd sirol er mwyn cynnal y cyflenwad bwyd, ac hefyd er mwyn sicrhau nad oes banc bwyd yn troi aelwyd sydd angen help i ffwrdd oherwydd diffyg cyflenwad.

Byddwn hefyd yn ychwanegu at y Grant Bwyd i roi cyfraniad ariannol i'r Grwpiau Bwydo / Clybiau Swper / Clybiau Cinio / Cynlluniau Pryd ar Glud amrywiol sydd drwy'r sir.

**4. Cronfa a Cymorth Charis Grant (tlodi tanwydd)**

Ymestyn capasiti i roi cyngor ar dlodi tanwydd, talebau tanwydd, a mynediad at dalebau tanwydd argyfwng gan ddarparwyr ynni unigol ac elusennau allanol.

**5. Rhaglen Gwrth Dlodi Gwynedd**

Cyfraniad tuag at gostau cyflogi Cydlynydd a Swyddog Tlodi.
Cyfraniad tuag at weithgareddau hyrwyddo a marchnata ar draws partneriaid i godi ymwybyddiaeth pobl o wasanaeth cymorth costau byw presennol.